# Gwneud Cais am Luniau CCTV

## Ceisiadau gan Unigolion

Mae’r wybodaeth a’r lluniau sy’n cael eu cofnodi gan ein camerâu CCTV yn cael eu gwarchod o dan Ddeddf Diogelu Data 2018. Mae hyn yn golygu na fydd gwybodaeth trydydd parti, fel rhoi gwybod pwy yw person arall neu rif cofrestru cerbyd, yn cael ei datgelu. O dan amgylchiadau arbennig, byddwn yn eu rhyddhau i’r heddlu, cyfreithwyr ac awdurdodau statudol sydd â phwerau i erlyn.

Mae disgwyl i bawb sy’n rhan o wrthdrawiad rhwng cerbydau neu y mae eu cerbydau’n cael eu difrodi ar safle’r Coleg roi gwybod am y mater hwn i’r heddlu a / neu eu cwmni yswiriant. Rydym yn delio’n uniongyrchol gyda’ch cwmni yswiriant neu eich cyfreithiwr os yw’n fater traffig heb fod yn droseddol, neu’r heddlu os yw’n drosedd anghyfreithlon, ac os felly rhaid i chi fynd i’ch gorsaf heddlu leol a chael rhif cyfeirio ar gyfer y drosedd. Rhaid i ni fod yn fodlon bod y cais yn gyfreithlon a didwyll cyn y gellir rhyddhau unrhyw luniau.

Os ydych chi eisiau gwneud cais am luniau ar eich cyfer eich hun, gellir gwneud hynny fel Cais Mynediad Gwrthrych. Mae rhagor o wybodaeth a ffurflen ar gael ar wefan y Coleg yn https://www.nptcgroup.ac.uk/about-us/publication-scheme/ .

Cofiwch na fydd y lluniau CCTV ar gael bob amser ac maent yn cael eu cadw am **hyd at uchafswm o 30 diwrnod** o ddyddiad y recordiad. Felly dylid cyflwyno unrhyw geisiadau newydd cyn gynted â phosib ar ôl y digwyddiad er mwyn i’r cais gael ei brosesu mewn pryd.

## Cwmnïau yswiriant a chyfreithwyr

Os ydych yn gwneud cais am CCTV ar gyfer cleient, dylech lenwi’r ffurflen sydd wedi’i hatodi a’i hanfon ar e-bost i data-protection-officer@nptcgroup.ac.uk. Byddwn yn cysylltu â chi i roi gwybod i chi os oes camerâu CCTV yn lleoliad y digwyddiad. Er mwyn chwilio am luniau ac wedyn eu rhyddhau, bydd y ffioedd a nodir isod yn berthnasol.

Ni fydd gennych hawl i dderbyn data sy’n cael eu cadw:

- Ar gyfer atal neu ganfod trosedd
- Ar gyfer arestio neu erlyn troseddwyr

os bydd rhoi’r wybodaeth i chi’n debygol o arwain at ragfarn yng nghyswllt y dibenion hyn. Ystyrir pob cais fesul achos.

## Ffioedd a Dulliau Talu

- Chwilio am CCTV - £25: Mae'r ffi yma ar gyfer cost chwilio am y digwyddiad ac nid yw'n gwarantu canlyniad
- Rhyddhau lluniau CCTV - £75: Byddwn yn gwneud copi o'r lluniau ac yn anfon y dystiolaeth atoch chi fel y cwmni yswiriant neu'r Cyfreithiwr yn cynrychioli eich cleient.

Gellir talu gan ddefnyddio un o'r dulliau canlynol:

- drwy'r post – siec i'w hanfon at y Swyddog Diogelu Data, Grŵp Colegau NPTC, Heol Dŵr-Y-Felin, Castell-nedd SA10 7RF.
- wyneb yn wyneb - siec, arian parod neu gerdyn credyd / debyd yn unrhyw un o safleoedd y Coleg
- ffôn – cerdyn credyd neu ddebyd dros y ffôn i'r Swyddfa Cyllid yng Ngholeg Castell-nedd ar 0330 818 9014.

Wrth wneud taliadau, nodwch bod y taliad ar gyfer cais am luniau CCTV. Dylid gwneud sieciau'n daladwy i 'Grŵp Colegau NPTC'.

# Ffurflen Gwneud Cais am Luniau CCTV
## (Gweithrediadau Cyfreithiol ac Yswiriant)

Dylid defnyddio'r ffurflen hon ar gyfer gwneud cais am ddata fideo o dan Ddeddf Diogelu Data 2018, Atodlen 2, Rhan 1(5)(3).

Nid yw'r darpariaethau GDPR sydd wedi'u rhestru yn berthnasol lle mae datgelu data:-

a) Yn angenrheidiol at ddiben, neu mewn cysylltiad â, gweithrediadau cyfreithiol (gan gynnwys darpar weithrediadau cyfreithiol).
b) Yn angenrheidiol at ddiben sicrhau cyngor cyfreithiol
c) Yn angenrheidiol fel arall at ddiben sefydlu, ymarfer neu amddiffyn hawliau cyfreithiol.

I'r graddau y byddai rhoi'r darpariaethau hynny ar waith yn atal y rheolydd rhag gwneud datgeliad.

Rhaid i Grŵp Colegau NPTC fod yn fodlon bod pob cais yn ddidwyll a bod yr unigolion sy'n gwneud cais yn deall eu goblygiadau cyfreithiol mewn perthynas â meddu ar a gwneud defnydd o luniau sydd wedi'u recordio ar system CCTV y Grŵp. Hefyd dylai pobl sy'n gofyn am luniau fod yn ymwybodol mai Grŵp Colegau NPTC sy'n berchen ar hawlfraint yr holl luniau o hyd ac na ellir eu cyhoeddi na'u dangos fel arall heb ganiatâd ysgrifenedig penodol gan y Grŵp.

Cofiwch mai dim ond am **hyd at uchafswm o 30 diwrnod** o ddyddiad y recordiad mae'r lluniau o system CCTV y Grŵp yn cael eu cadw. Felly cyflwynwch eich cais cyn gynted â phosib yn dilyn y digwyddiad, fel bod eich cais yn gallu cael ei brosesu mewn pryd. Fel y nodir yn y nodiadau cyfarwyddyd, efallai y bydd ffi yn berthnasol.

### 1. Manylion y sefydliad / cwmni sy'n gofyn am y data

| | |
|---|---|
| Teitl | |
| Enw cyntaf | |
| Cyfenw | |
| Swydd | |

| | |
|---|---|
| Enw'r cwmni | |
| Cyfeiriad post | |
| Rhif ffôn | |
| Cyfeiriad e-bost | |

2. Nodwch y diben yr ydych yn gwneud cais am yr wybodaeth hon ar ei gyfer.

Sicrhau cyngor cyfreithiol cyn ystyried rhoi gweithrediadau cyfreithiol ar waith ☐

Amddiffyn neu roi gweithrediadau Troseddol ar waith ☐

Amddiffyn neu roi gweithrediadau Sifil ar waith ☐

Amddiffyn neu roi Hawliad Yswiriant ar waith ☐

3. Manylion am y data fideo y gwneir cais amdanynt

Os yw'r digwyddiad yn cynnwys cerbyd nodwch y manylion canlynol

| | |
|---|---|
| Lliw y car | |
| Gwneuthuriad y car | |
| Model y car | |
| Plât cofrestru'r car | |

Dyddiad ac amserlen y lluniau

| | |
|---|---|
| Dyddiad y digwyddiad | |
| Nodwch amser y digwyddiad os yw'n hysbys. Os nad yw, nodwch yr amser cyrraedd a'r amser y darganfuwyd y difrod neu'r amser gadael. Nodwch yn glir a oedd yn fore neu'n brynhawn. | |
| Amser y digwyddiad | |
| Amser dechrau | |
| Amser gorffen | |

Lleoliad

| | |
|---|---|
| Safle'r Coleg | |
| Lleoliad y maes parcio / cerbyd | |

| |
|---|
| Defnyddiwch yr adran hon i roi unrhyw fanylion pellach a fydd yn ein helpu ni i ganfod unrhyw luniau sydd eu hangen ac i roi disgrifiad o'r digwyddiad. Po fwyaf penodol yw'r manylion, yr hawsaf fydd dod o hyd i'r data. |

4. Ceisiadau ar ran Gwrthrych y Data:

Os ydych chi'n gweithredu ar ran Gwrthrych y Data, rhaid i chi gael ei awdurdod ysgrifenedig wedi'i lofnodi i wneud hynny a rhaid i chi gynnwys yr awdurdod hwnnw a phrawf o bwy ydych chi gyda'ch cais.
Llenwch yr adran hon gan gymryd gofal i gyflwyno'r cais gyda'r prawf priodol o bwy ydych chi.

| Manylion Gwrthrych y Data | |
|---|---|
| Enw llawn | |
| Cyfeiriad | |
| Cyfeiriad e-bost | |
| Rhif ffôn: | |

| Disgrifiwch eich perthynas â Gwrthrych y Data sydd wedi arwain atoch yn gwneud y cais am yr wybodaeth ar ei ran. |
|---|
| |

**Awdurdodiad gan Wrthrych y Data ar gyfer rhannu'r data**

Yr wyf i ............................................. trwy hyn yn awdurdodi y caiff unrhyw luniau ohonof i a / neu fy ngherbyd fel y manylir ar y ffurflen gais hon am luniau CCTV gael eu datgelu i:

Sefydliad / Cwmni ………………………………………

Cyfeiriad:

Llofnod ……………………………………………… Dyddiad ……………………

Y dogfennau y mae'n rhaid i chi eu cynnwys gyda'ch cais:
(i) Tystiolaeth o bwy ydych chi (copi o'ch pasbort, trwydded yrru neu dystysgrif geni);
(ii) Caniatâd wedi'i lofnodi i ddatgelu i drydydd parti (fel y dynodir uchod);

## 5. Datganiad a Chytundeb y Sefydliad / Cwmni sy'n Gwneud Cais

Yr wyf i (enw mewn prif lythrennau) yn tystio fy mod i/ein bod ni yn;

1. Gofyn am yr wybodaeth hon ar ran y Person(au) a nodir uchod: ☐

Neu

2. Gofyn am yr wybodaeth hon ar ran fy sefydliad / cwmni, mewn perthynas â gweithrediadau. ☐

(SYLWER; Ticiwch 1 neu 2, pa un bynnag sy'n berthnasol).

Rwyf yn deall yn llawn oblygiadau Deddf Diogelu Data 2018 ac yn datgan y byddaf yn mabwysiadu cyfrifoldebau'r Rheolydd Data unwaith y bydd y data personol perthnasol yr wyf wedi gwneud cais amdanynt yn fy meddiant.

Hyd y gwn i, nid yw'r data y gwneir cais amdanynt ar gael fel deunydd heb ei ddefnyddio

sydd ar gael drwy Wasanaeth Erlyn y Goron a'r Heddlu. Rwyf hefyd yn deall mai Grŵp Colegau NPTC sy'n berchen ar hawlfraint y lluniau o hyd ac mai dim ond ar gyfer eu defnyddio mewn perthynas â'r gweithrediadau cyfreithiol sydd wedi'u nodi ar y ffurflen hon mae'r lluniau'n cael eu rhyddhau.

Yr wyf yn addo na fydd y lluniau'n cael eu rhyddhau i'r cyfryngau nac i bobl heb unrhyw ddiddordeb perthnasol yn y gweithrediadau arfaethedig, heb sicrhau caniatâd ysgrifenedig penodol gan Grŵp Colegau NPTC.

Trwy lofnodi'r datganiad hwn a'r Cytundeb rwyf yn cydnabod fy mod yn deall yn llawn y byddaf yn cyflawni trosedd o dan y Ddeddf Diogelu Data os wyf wedi gwneud datganiad ffug neu os na fyddaf yn cyflawni fy rhwymedigaethau fel Rheolydd Data.

Llofnodwyd gan:

Enw mewn prif lythrennau:

Swydd

Sefydliad / cwmni

**Anfonwch y ffurflen wedi'i llenwi at:**

Drwy'r post at:
Swyddog Diogelu Data
Grŵp Colegau NPTC
Coleg Castell-nedd
Heol Dŵr y Felin
Castell-nedd
SA10 7RF

neu

Ar e-bost i:
Data-protection-officer@nptcgroup.ac.uk

---

DEFNYDD Y SWYDDFA

Ffi a dalwyd:

Dyddiad adolygu:

Dyddiad rhyddhau i'r ymgeisydd: